

## **Chwarae plant: egwyddorion ac arfer**

### **Tasg 1**

*Pam mae chwarae'n bwysig?*

Yn ôl y wefan 'Family Lives' mae chwarae yn rhan hanfodol o ddatblygiad plant, am ei fod yn datblygu hunan hyder a pharch am ei hun. Bu plant yn datblygu nifer o sgiliau angenrheidiol wrth iddynt chwarae, er enghraifft sgiliau llythrennedd, emosiynau, creadigol a sgiliau cymdeithasol (Family Lives, 2020). Dywed Bruce (2016) bod chwarae yn rhan annatod o blentyndod plant, sy'n broses, ac nid rhywbeth lle mae yna goal penodol, creda bod plant yn gallu defnyddio eu dychymyg i chwarae ac nid oes angen unrhyw fath o deganau arnynt i wneud hyn, a ni ddylai unrhyw oedolyn effeithio ar y chwarae neu eu newid, am fod y plant yn dysgu yn well gan chwarae yn hunangyfeiriedig. Mae'n hynod o bwysig i blant i chwarae yn hunangyfeiriedig am ei fod yn caniatáu iddynt ddatblygu eu lefel o feddwl a dealltwriaeth, yn ôl Bruce, sy'n eu caniatáu i feddwl am sut mae eraill yn teimlo wrth iddynt actio yn wahanol, a dangos gwahanol ochrau o'u personoliaeth, er enghraifft pan maent yn teimlo'n dda, yn wael neu yn hunanol, ac yn y blaen (*Reference, 2020*). Cytuna Freud efo hyn (Bettelheim, 1987) mae chwarae yn caniatáu plant i fynegi ei hunain, ac mae'n ffordd effeithiol iddynt i ddangos eu hemosiynau a theimladau, mewn ffordd naturiol heb unrhyw straen, a caiff cyfle i ddangos eu gwir bersonoliaeth. Mae gan bob plentyn yr hawl i chwarae yn y byd, yn ôl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig a Hawliau'r Plentyn, CCUHO (Plentyndod Chwareus, 2021). Mae'n bwysig iawn bod plant yn dysgu o fewn amgylchedd tu fewn a thu allan, fel dywedodd Piaget, lle maent yn gallu archwilio a darganfod sut mae ein byd yn gweithio, gallent ymarfer syniadau a sgiliau newydd, cymryd risg a datrys problemau ar ben ei hunain neu gydag eraill. (*Early Years Matters, 2021*).

*Beth yw rôl chwarae hunangyfeiriedig?*

Hyd yn oed bod chwarae yn rhan annatod o ddatblygiad plant, mae chwarae hunangyfeiriedig yn rhan bwysicaf o'u datblygiad, lle mae plant yn penderfynu beth maen nhw am wneud, a nhw sydd yn arwain y gweithgaredd gan eu diddordebau a'u syniadau, nid oed gan y math chware yma nod penodol. (*Play Adventures, 2019*). Mae chwarae hunangyfeiriedig yn caniatáu plan i ddeall annibyniaeth o oedran ifanc, wrth iddynt fod yn amgylchedd diogel a rhydd. Mae'n caniatáu i blant i fod yn greadigol wrth

iddynt feddwl am beth i wneud ac ati, wrth roi cyfleodd iddynt rydym yn rhoi'r cyfle iddynt i ddatblygu. Mae'n hefyd yn caniatáu iddynt i ddatrys problemau, ac iddynt ddysgu ar gyflymder eu hunain (*Ledendecker, 2020*). Er mwyn galluogi i'r gylchred chwarae i weithio, mae angen i'r oedolion i ddeall sut mae'n gweithio ac i adnabod lle dylai fod o fewn y gylchred, oherwydd gall oedolyn effeithio ar y llif, sy'n effeithio ar gysylltiad y plentyn wrth iddynt chwarae (*King, 2019*).

*Math o chwarae – sut mae'r math o chwarae yn cefnogi datblygiad cyfannol plant?*

Mae yna sawl math o chwarae sydd yn cefnogi datblygiad cyfannol plant, gan gynnwys:

- chwarae dramatig
- corfforol
- creadigol
- dychmygol
- chwarae rôl

Wrth i blant cael y cyfle i chwarae gan ddefnyddio adnoddau penagored gyda defnyddiau naturiol ac ati, mae'n rhoi hwb i ddatblygiad cyfannol y plant oherwydd eu sgiliau dychymyg a chreadigrwydd, dyweda Bruce (Dean Parks School, 2016) bod plant yn defnyddio eu profiadau wrth greu rheolau gan chwarae, a nhw sy'n cadw trefn ar y fath o chwarae maen nhw am wneud. Mae'n bwysig iawn bod plant yn datblygu eu sgiliau motor wrth chwarae, am ei fod yn gorfod ymestyn am wahanol adnoddau, a chodi a cherdded o amgylch ystafell neu ardal tu allan (Parents, 2014). Yn debyg, os mae plant yn chwarae rôl mae'n rhoi hwb i'w dychymyg, wrth iddynt ddeall sut i ymateb i bobl eraill, sy'n annog eu sgiliau cyfathrebu, llythrennedd a gwrando. Wrth iddynt actio fel gwahanol bobl mae'n rhoi mwy o hyder iddynt, er mwyn siarad o flaen pobl ac am hyder iddyn nhw eu hunain (*Scholar Base, 2015*).

*Sut gall oedolion gefnogi chwarae hunangyfeiriedig?*

Gall oedolion cefnogi plant yn wahanol ffyrdd wrth iddynt chwarae yn hunangyfeiriedig, yn ôl Motessori, gwaith plant yw chwarae felly mae disgwyl i oedolion i annog unrhyw fath o chwarae, mae dyletswydd gan oedolion i ddarparu amgylchedd diddorol i chwarae, er mwyn sicrhau bod gan blant Y Cyfnod Sylfaen (2021) adnoddau addas,

er enghraifft tywod a dŵr er mwyn iddynt gael eu hysbrydoli. Mae'n bwysig iawn bod yr oedolion yn sicrhau amgylchedd diogel, am fod y cyfnod Sylfaen un bwysleisio asesiad risg, Ni ddylai plant cael eu gadael ar ben eu hun, mae dyletswydd ganddynt i sefyll nôl, arsylwi a gadael i'r gylchred chwarae ddatblygu (*Rymanowicz, 2015*).

## **Tasg 2**

*Pam mae risg yn fuddiol i blant? – er enghraifft adeiladu gwydnwch*

Wrth gymryd risg, mae'n caniatáu i blant i godi hyder a dysgu sgiliau bywyd angenrheidiol sydd angen arnynt. Bydd plant yn dysgu amdanyn nhw eu hunain, er enghraifft mae rhaid gadael iddynt chwarae ar uchder, ar gyflymder, ar bwys pethau fel dŵr a than, lle maen nhw yn dod i ddeall peryglon wahanol bethau ac yn adnabod beth sydd yn ddiogel ar gyfer nhw fel unigolyn, er enghraifft beth sy'n rhy uchel (*Holecho, 2020*). Mae yna nifer o fuddion wrth i blant cymryd risg wrth chwarae, mae'n dda iddynt er mwyn ymestyn eu sgiliau, herio ei hun, ymestyn eu gallu corfforol ac emosiynol, goresgyn ofnau ac er mwyn cael profiad uniongyrchol. Mae angen i blant cael eu rhoi o fewn sefyllfaoedd gwahanol er mwyn iddynt herio ei hun yn ffisegol ac yn feddyliol. Wrth iddynt chwarae ac arbrofi trwy risg mae'n ffordd gyffrous i ddysgu ac mae plant yn medru goresgyn eu hofnau. Wrth i blant dysgu bod derbyn risg yn iawn, maen nhw yn codi eu hunain hyder a'u hunain balchder wrth feddwl am feth maent wedi llwyddo i wneud gan gymryd y risg. Ond ni ddylai unrhyw blentyn cael eu gorfodi i wneud rhywbeth, mae rhaid i'r oedolion dilyn chwarae yr plant, a'u cyngorthwyo wrth iddynt dysgu trwy gymrud risg (*Play Wales, 2021*). Mae'n angenrheidiol, ar gyfer ddatblygiad plant, eu bod yn chwarae yn rhydd gyda risg, yn ôl Early Education (2021) mae'n caniatáu i blant i herio ei hunain yn ffisegol, wrth iddynt ddringo yn uwch, rhedeg yn gyflymach a neidio yn bellach ac ati. Mae'n herio'r plant yn emosiynol, wrth iddynt deimlo allan o reolaeth neu oresgyn ofn, yn feddyliol wrth ddeall risgiau, deall ffiniau ac adnabod sut i gadw allan o drwbl. Mae'n caniatáu i blant i adnabod eu hun, wrth iddynt deimlo fel eu bod yn rheolaeth o'u gweithredoedd, eu dysgu a'u chwarae, ac mae'n caniatáu iddynt i wthio ei hunain er mwyn iddynt weld gwelliant. Gallant ddysgu am ffiniau a rheolau wrth gymryd risg, ond wrth iddynt gael eu harsylwi gan oedolion maen nhw yn ymwybod eu bod yn ddiogel ac yn gallu cael

cymorth os oes angen. Gall plant hefyd dysgu sut i reoli a ddeall eu teimladau, y straen ar sut i ddelio efo pethau fel ansicrywdd a sut i ddatrys problemau. (EYR,2018)

*Sut ydyn ni'n cydbwyso datgelu plant i risg tra'n eu cadw'n ddiogel rhag niwed?*

Mae'n bwysig ein bod yn caniatáu i blant cymryd risg, oherwydd erbyn heddiw mae llawer o blant yn ofni gwahanol bethau, o ganlyniad i'w rhieni, wrth iddynt geisio annog nhw i fod yn ddiogel, er enghraifft paid â dringo neu paid â rhedeg ac ati. Mae'n bwysig ein bod yn cydbwyso diogelwch plant er ceisio eu hannog i gymryd risg, er mwyn wneud hyn y ffordd gorau mae angen i aelodau o staff i wneud asesiadau risg ar gyfer unrhyw weithgaredd, gan nodi pa risg sydd a sut maen nhw am ddelio efo'r problemau, yn amlwg nad ydynt yn gallu rhwystro popeth, er enghraifft cwmpo neu anafu eu hunain. (Rennie, 2018) Yn ôl y Llywodraeth (2021) mae'n bwysig bod y staff yn wneud asesiad risg, er mwyn datrys y problemau cyn unrhyw ddamwain difrifol, mae hyn yn rhan o'r gyfraith, ac mae rhaid cadw nhw yn gyfredol. Er enghraifft, gall rhywun gadael y gât ar agor, sy'n codi risg bod plant yn gallu rhedeg allan tuag at yr heol lle mae ceir, felly'r risg bydd y plant, ac i ddatrys hyn mae angen sicrhau bod y gât ar gau, gydag aelod o staff yn cadw llygaid arni trwy'r amser. Dyweda Gill (2020) bod cydbwyso risg a diogelwch yn hynod o bwysig, ond rhywbeth sy'n cymryd llawer o feddwl. Mae cymryd risg yn fuddiol i bob plentyn, ond mae pethau yn gallu effeithio hyn, er enghraifft o fewn adran chwarae gall pont cael ei chreu i siglo, sy'n dysgu sgiliau motor mawr i blant, mae'n rhoi her i'r plant i geisio symud eu traed wrth groesi. Ond, y risg gyda hyn yw cwmpo, ond mae rhaid i'r plant dysgu am hyn am ei hun, ac yna gall y plant dod yn well wrth gerdded drosti eto. Yn ôl Judith Hackitt, mae chware tu allan yn dysgu plant ifanc sut i ddelio efo risg, a hebddo hyn byddent yn methu. Gallwn hefyd ceisio cadw plant yn ddiogel gan greu ardaloedd diddorol, sy'n hybu diddordeb wahanol blant, lle maen nhw yn gallu chwarae yn hunangyfeiriedig heb unrhyw straen o oedolion ac ati, a gall yr ardaloedd yma rhoi hwb i'w synhwyrâu a sgiliau corffol motor mawr.

### **Tasg 3**

*Manteision a chyfyngiadau'r dull arsylwi*

*A yw'n rhoi darlun cyfannol o'r plenty neu a yw'n canolbwyntio ar un maes yn unig?  
Beth yw chryfderau a chyfengiadau hyn?*

Mae arsylwi yn allweddol o ran datblygiad plant trwy chwarae, wrth arsylwi rhydydych yn edrych ar eu hymddygiad, eu gweithredoedd, ymadroddion a gwrando arnynt yn rhyngweithio gydag eraill. Pwrpas arsylwi yw dod i adnabod pob plentyn fel unigolion, ac i ddeall beth maen nhw yn cael problemau gyda, mae'n hefyd yn caniatáu i aelodau o staff i drefnu gweithgareddau sy'n addas ar gyfer yr unigolion wrth weld beth maen nhw yn mwynhau. (Drake, 2006) Mae yna nifer o wahanol ddulliau arsylwi sy'n cael effaith dda ar y plant, ac mae nifer ohonynt yn gallu ffocysu ar wahanol bethau. Er enghraifft, dull arsylwi traciwr amser, lle mae aelod o staff yn arsylwi plentyn neu ardal sbesiffig pob cwbl o funudau, er enghraifft bob 2, 3, 5 neu 10 munud. (*Early Years Careers, 2015*) Mae'r math yma o arsylwi yn caniatáu iddynt i gasglu unrhyw dystiolaeth o beth mae'r plentyn yn hoffi neu beidio, a gallwch weld faint o amser mae un fath o weithgaredd yn gallu dal sylw'r plentyn. Rydych yn gallu gweld yn union sut mae'r plentyn yn rhyngweithio ar ben neu hun, neu gydag eraill. Rydych yn gweld lle mae'r plentyn yn hoffi treulio eu hamser, gyda phwy a sut mae'r plentyn yn actio ac ymateb i eraill. Mae yna nifer o gryfderau i'r fath yma o arsylwi, gan gynnwys y ffaith nad yw'r plant yn teimlo unrhyw bwysau neu straen, am eu bod yn naturiol, gyda'r oedolion yn gwylio o bellter, mae'r arsylwi yn gallu cael ei ffocysu ar rywbeth sbesiffig, gallwch arsylwi plentyn am amser hir iawn, am ei fod yn cael ei wneud dros amser ac nid am 5 munud syth ac ati. Nid yw'r math yma o arsylwi yn cymryd llawer o amser am fod y staff yn gallu gwneud rhywbeth arall ar yr un pryd. Ond, er bod nifer o gryfderau mae yna hefyd cyfyngiadau sy'n gwrthod yr arsylwad rhag bod yn hollol fanwl, er enghraifft nad yw'r oedolyn methu'r gwylio plentyn am yr holl amser, ac felly gallant golli digwyddiad mawr yn yr amser nad ydynt yn gwylio, er enghraifft y plentyn yn cyfathrebu gydag eraill. (Heyde, 2014) Mae arsylwi yn caniatáu i'r oedolyn i ddeall patrymau yn ymddygiad y plant, adnabod pwy yn union yw cyfeillion y plant, lefelau ymrwymiad, eu hoffterau a'u sbardunau, felly beth sydd y neu upsetio neu achosi iddynt i fynd yn grac gydag eraill. Mae'r math yma o arsylwi yn cael ei wneud yn ysgrifenedig, felly mae gan y sefydliad y dystiolaeth ysgrifenedig trwy'r amser ac mae'n hawdd deall gan bob aelod o staff y sefydliad. Ond, yn anffodus nad yw arsylwi yn dweud beth yw achosion o unrhyw beth, does dim byd yn dweud pam mae'r plentyn wedi action mewn ffordd sbesiffig, er enghraifft os mae plentyn arall wedi eu ysbrydoli

neu wedi eu effieithio mewn unrhyw ffordd, nad yw'n dweud os mae aeold o staff wedi sgwrsio iddo i wneud rhywbeth arall ac ati. Gall yr oedolyn hefyd effeithio ar y chwarae sy'n effeithio ar yr arsylwad, efallai maent wedi annog iddynt i wneud rhywbeth yn ffordd wahanol i'r arfer. Mae ffactorau amgylcheddol hefyd yn cael effaith arnynt, er enghraifft rhywbeth sydd wedi digwydd gartref ac ac o ganlyniad nad yw'r plentyn yn cyfathrebu gydag unrhyw un ac ati. Gall ffactorau datblygiadol hefyd cael effaith arnynt, efallai nad yw'r oedolyn yn adnabod eu hanghenion dysgu neu beth sydd wedi digwydd iddynt tu allan i'r sefydliad. (First Discovers, 2020) Fel dywedodd Howard ac McInnies, 2013, mae plant yn dysgu gorau wrth chwarae, ac mae angen cefnogi hyn yn lle brwydro yn eu herbyn, ac mae lefel uwch o les emosiynol plant wrth iddynt chwarae.

#### **Tasg 4**

*Wrth arsylwi ac asesu plant pam mae chwarae'n bwysig?*

*A yw arsylwi plant mewn chwarae yn rhoi adlewyrchiad mwy clir i ni o ble maent yn eu datblygiad?*

Mae'n bwysig arsylwi plant wrth iddynt chwarae oherwydd rydych yn gweld y plentyn fel unigolion a gweld eu personoliaeth yn datblygu. Yn ôl Early Years Career (2016), rydych yn dysgu mwy am wir personoliaeth y plentyn, deall sut mae eu sgiliau yn datblygu, beth maen nhw hoffi gwneud a beth yw eu diddordebau. Dyweda theori Freud, eich bod yn weld y plentyn go iawn wrth iddynt chwarae, gallwch weld beth yw eu hoffterau a beth maen nhw'n eu casáu, eu cryfderau a'u gwendidau er mwyn gallu eu helpu yn y dyfodol (First Discovers, 2020). Gallwch hefyd weld datblygiad cymdeithasol plant wrth eu harsylwi gan chwarae, gallwch eu gweld yn chwarae gydag eraill ac yna weld sut maen nhw yn ymateb, gallwch eu gweld yn datblygu eu sgiliau llythrennedd wrth iddynt gyfathrebu a gwrando ar eraill a chytuna syniad Vygotsky gyda hyn (Kimberly, 2016). Felly, gallwch weld yn union le mae plant o ran eu datblygiad wrth iddynt chwarae o fewn y sefydliad. Wrth ystyried erthygl Howard a McInnes (2012) rydym yn gallu gweld adlewyrchiad clir o ddatblygiad plant wrth iddynt gael eu harsylwi wrth chwarae, dengys yr erthygl bod plant yn ymateb yn wahanol wrth chwarae a chael eu gofyn i wneud rhywbeth, sy'n dangos bod arsylwi plant wrth iddynt chwarae yn hynod o bwysig. Dwedant nhw fod lles emosiynol plant llawer yn well wrth

iddynt chwarae i gymharu â rhywbeth sydd llawer yn llai fel chwarae. Yn ôl gwefan Hwb Cymru (2021) gallwch weld datblygiad amlwg wrth i blant chwarae, a gall yr oedolion cwestiynu sut mae eu datblygiad personol, cymdeithasol, emosiynol, iaith a chyfathrebu, a datblygiad corfforol. Wrth iddynt chwarae gallwch weld sut mae eu sgiliau motor wedi datblygu, ac os maent yn gallu cadw rheolaeth drosto eu hunain, sut maen nhw yn ymateb i wahanol synau.

### *Sut gall oedolion gefnogi hyn?*

Mae'n bwysig iawn bod oedolion yn cefnogi plant gyda phopeth sydd yn digwydd, ac mae'n bwysig iawn bod plant yn cael eu harsylwi yn aml. Er mwyn wneud arsylwadau llwyddiannus mae'n bwysig bod yr ystafell neu'r ardal wedi cael eu llenwi gyda phethau diddorol ac addysgiadol. Mae'n bwysig bod yr oedolion wedi creu ardaloedd fel: ardal rôl, ardal llyfrau, ardal mathemateg, ardal creu a chrefft, ardal dwr a thywod a phethau sensory. Mae'r ardaloedd yma yn mynd i annog diddordeb bron pob plentyn a gallwch arsylwi lle maen nhw yn mwynhau chwarae, beth maen nhw'n hoffi gwneud a beth sydd yn dal eu diddordeb a phwy (Little Ducklings, 2021). Yn ôl y wefan Nursery World (2006), gall oedolion gefnogi hyn trwy arsylwi plant trwy'r amser, beth bynnag maen nhw yn wneud, mae ganddynt ddyletswydd i wneud hyn fel rhan o'i swydd, nid yw arsylwi lan i un aelod o staff yn unig, dylai pawb cyfrannu at hyn am eu bod yn gallu deall gwahanol bethau o agweddau plant, sy'n gallu dangos eu gwelliant. Mae'n bwysig iawn fod yr oedolion wedi cael yr hyfforddiant cywir er mwyn sicrhau eu bod yn medru arsylwi datblygiad plant wrth iddynt chwarae. Wrth ystyried Y Cyfnod Sylfaen, mae'n bwysig ystyried bod angen i bob aelod o staff cael digon o le ar yr amserlen er mwyn arsylwi plant mewn ffordd naturiol, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y sylw sydd angen arnynt, er mwyn datrys unrhyw broblemau neu bryderon sy'n codi, wrth ystyried swydd yr oedolion mae dyletswydd ganddynt i arsywli yn ddyddiol fel rhan o'i swydd (Cyfnod Sylfaen, 2021).

## **Rhestr Cyfeirnod**

Bettleheim, B. (1987) *The Importance of Play*. Available at: [The Importance of Play - The Atlantic](#) (Accessed at: 7<sup>th</sup> of January 2021).

Cyfnod Sylfaen (2021) *Cyfnod Sylfaen*. Available at: [Cyfnod Sylfaen - Hwb \(gov.wales\)](#) (Accessed at: 8<sup>th</sup> of January 2021).

Cyfnod Sylfaen (2021) *Observing Children*. Available at: [DCELLS FP Observing children report E.indd \(gov.wales\)](#) (Accessed at: 14<sup>th</sup> of January 2021).

Dean Parks School (2016) *12 Features of Play*. Available at: [The 12 Features of Play – Nursery \(deanparkschool.org.uk\)](#) (Accessed at: 8<sup>th</sup> of January 2021).

Drake, J. (2006) *Observing Children*. Available at: [Observing children | Nursery World](#) (Accessed at: 11<sup>th</sup> of January 2021).

Early Education (2020) *Taking Risks in Play*. Available at: [Taking risks in play | Early Education \(early-education.org.uk\)](#) (Accessed at: 10<sup>th</sup> of January 2021).

Early Years Matters (2021) *Play and Learning*. Available at: [Play & Learning - Early Years Matters](#) (Accessed at: 7<sup>th</sup> of January 2021).

Early Years Resources (2018) *The Importance of Risky Play in Childhood*. Available at: [The Importance of Risky Play | EYR \(earlyyearsresources.co.uk\)](#) (Accessed at: 10<sup>th</sup> of January 2021).

Family Lives (2020) *Why Play Matters*. Available at: [Why play matters - Family Lives](#) (Accessed at: 7<sup>th</sup> of January 2021).

First Discovers (2020) *Early Years Observation in the Spotlight*. Available at: [Early Years Observation in the Spotlight \(firstdiscoverers.co.uk\)](#) (Accessed at: 11<sup>th</sup> of January 2021).

Gill, T. (2020) *Balancing Risks and benefits in Outdoor Learning and Play*. Available at: [160606 PROJECTDIRT ECD BOOK7 A4-1.pdf \(outdoorclassroomday.org.uk\)](#) (Accessed at: 10<sup>th</sup> of January 2021).

Holecko, C. (2020) *Why Kids Need To Take Risks in Life*. Available at: [Why Kids Need to Take Risks in Life \(verywellfamily.com\)](#) (Accessed at: 8<sup>th</sup> of January 2021).

Howard, J. a McInnes, K. (2012) 'The impact of children's perception of an activity as play rather than not play on emotional well-being', *Child: care, health and development*, 39 (5) tt. 737–742.

Kelly. (2016) *Observing Childrens Play*. Available at: [Observing children's play \(earlyyearscares.com\)](http://earlyyearscares.com/observing-childrens-play) (Accessed at: 11<sup>th</sup> of January 2021).

Kelly. (2015) *Example of Tracking Children within the EYFS*. Available at: [Examples of tracking children within the EYFS \(earlyyearscares.com\)](http://earlyyearscares.com/examples-of-tracking-children-within-the-eyfs) (Accessed at: 11<sup>th</sup> of January 2021).

Kimberley. (2016) *Supporting speech development through play*. Available at: [Supporting speech development through play \(earlyyearscares.com\)](http://earlyyearscares.com/supporting-speech-development-through-play) (Accessed at: 14<sup>th</sup> of January 2021).

Ledendecker, M. (2020) *Why Encourage Self Directed Play?* Available at: [Why Encourage Self-Directed Play? \(berkshiremontessori.org\)](http://berkshiremontessori.org/why-encourage-self-directed-play) (Accessed at: 7<sup>th</sup> of January 2021).

Little Ducklings (2021) *Nursery Learning Environment*. Available at: [Nursery Learning Environment | Explore Our Nursery Rooms \(little-ducklings.net\)](http://little-ducklings.net/nursery-learning-environment) (Accessed at: 14<sup>th</sup> of January 2021).

Miller, J. (2020) *When Being Tall Means You Get Treated Older*. Available at: [Developing Motor Skills | Parents](http://developingmotor.com/when-being-tall-means-you-get-treated-older) (Accessed at: 8<sup>th</sup> of January 2021).

Play Adventures (2021) *Self Directed Play*. Available at: [Self Directed Play | PlayAdventures](http://playadventures.com/self-directed-play) (Accessed at: 7<sup>th</sup> of January 2021).

Play Wales (2021) *Hawl Plant i Chwarae*. Available at: [Hawl plant i chwarae | Plentyndod Chwareus](http://playwales.com/hawl-plant-i-chwarae) (Accessed at: 7<sup>th</sup> of January 2021).

Play Wales (2021) *Play and Challenge*. Available at: [Play Wales | Chwarae Cymru](http://playwales.com/play-and-challenge) (Accessed at: 8<sup>th</sup> of January 2021).

Prezi (2014) *Tracking Information*. Available at: [TRACKING OBSERVATION by tonicha heyde \(prezi.com\)](http://prezi.com/tracking-observation) (Accessed at: 11<sup>th</sup> of January 2021).

Reference (2020) *What is Tina Bruce's Theory on Play?* Available at: [What Is Tina Bruce's Theory on Play? \(reference.com\)](http://reference.com/what-is-tina-bruce-theory-on-play) (Accessed at: 7<sup>th</sup> of January 2021).

Scholar Base (2015) Why Role Play is Important for a Child's Holistic Development. Available at: [Why Role-Playing Is Important For A Child's Holistic Development | Scholar Base \(scholar-base.com\)](https://scholar-base.com/why-role-playing-is-important-for-a-childs-holistic-development/) (Accessed at: 7<sup>th</sup> of January 2021).

Rennie, M. (2018) *What is a Risk Assessment in Childcare?* Available at: [What is a Risk Assessment in Childcare? | DeltaNet \(delta-net.com\)](https://delta-net.com/what-is-a-risk-assessment-in-childcare/) (Accessed at: 10<sup>th</sup> of January 2021).

Rymanowicz, K. (2015) *The Power of Play*. Available at: [the-power-of-play-part-5-adult-roles-in-childs-play](https://the-power-of-play-part-5-adult-roles-in-childs-play) (Accessed at: 8<sup>th</sup> of January 2021).

Sands, C. (2013). *The Play Cycle*. Available at: [The Play Cycle: Observing & Understanding Play — Children's Scrapstore](https://childrens-scrapstore.com/the-play-cycle-observing-understanding-play/) (Accessed at: 8<sup>th</sup> of January 2021).